CO18272 Rhyd-y-Penau Road: Arafu traffig – y diweddaraf am y cynllun (Chwefror 2020)

Gwnaethom ymgynghori ar y cynllun uchod i gyflwyno mesurau arafu traffig a gwella'r cyfleusterau croesi i gerddwyr ar hyd Rhyd-y-penau. Aeth y cynllun allan i dendr cyn Nadolig 2019 ond ni chawsom unrhyw gyflwyniadau tendr gan unrhyw Gontractwyr. Mae'r contractwyr wedi dweud bod hyn o ganlyniad i broblemau capasiti oherwydd eu llwythi gwaith presennol, ond hefyd gan fod hwn yn gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cymru roedd yn rhaid ei gwblhau ar y safle erbyn diwedd y flwyddyn ariannol hon ac roedd contractwyr oedd eisoes wedi ymrwymo i brojectau eraill yn methu â chwblhau'r gwaith o fewn y cyfnod hwn.

Oherwydd hyn, cawsom drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru a chytunwyd, gan na allai'r arian hwn gael ei wario erbyn mis Mawrth 2020, y byddai'n rhaid i ni ailgyflwyno cais ar gyfer cwblhau'r cynllun hwn yn 2020/21. Rydym wedi cynnwys hyn yn ddiweddar yn rhan o gais newydd am arian ar gyfer 2020/21 a byddem yn rhagweld y byddem yn clywed canlyniad y cais hwn yn ystod y misoedd nesaf. Byddwn yn ailddendro'r project pan fydd cyllid wedi'i sicrhau ac yn cyflwyno'r cynllun cyn gynted â phosibl.